# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

## 22/11/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

# OPIN-2000-0100 Gwrthwynebiad i Fyddin Ewropeaidd/ Opposition to Euro-Army

23 Nov 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn gwrthwynebu'r ffaith fod Llywodraeth Lafur San Steffan wedi ymrwymo Lluoedd Teyrnas Unedig Ei Mawrhydi, gan gynnwys unrhyw bersonél o Gymru a allai fod yn gwasanaethu ynddynt, i Fyddin Ewropeaidd a fyddai'n gwanhau NATO heb wneud unrhyw beth i gynyddu gallu milwrol gwledydd Ewrop. Mae hefyd yn annog Prif Weinidog Cymru i wneud cyflwyniadau i San Steffan ar y cam hwn, ar ran y Cynulliad Cenedlaethol.*

*This Assembly opposes the Labour Government at Westminster for committing Her Majesty's United Kingdom Forces, including any Welsh personnel who may be serving, to an European Army, which will weaken NATO and do nothing to increase the military capability of the European nations, and urges the First Minister, on behalf of the National Assembly, to make representations to Westminster on this move.*

# OPIN-2000-0099 Mesurau i Ymorol rhag BSE/BSE

## Precautionary Measures

23 Nov 2000 Raised by Peter Rogers

No Subscribers

*Yn sgil pryder eang y gallai cig eidion dros 30 mis oed o Ffrainc fod yn mynd i mewn i'r gadwyn fwyd, mae'r Cynulliad hwn yn galw am waharddiad ar fewnforio cig eidion o Ffrainc dros yr oedran hwn i Gymru, a hynny ar unwaith; ac yn mynnu adolygiad ar unwaith o'r mesurau a gymerir i amddiffyn defnyddwyr Cymru rhag y perygl o BSE, gan gynnwys:*

*- adolygiad trwyadl o'r deddfau labelu er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gwybod yn union o ble y daw pob cynnyrch cig.*

*Following widespread concern that French Beef over 30 months old could be entering into the food chain, this Assembly calls for an immediate ban on the import into Wales of French Beef over this age; and demands an immediate review of precautionary measures to protect the Welsh consumer from exposure to the risk of BSE, including:*

*- a thorough review of labelling laws to ensure that consumers know the precise origins of all meat produce.*

## OPIN-2000-0098 Cydnabod y Wir Anrhydeddus Farwnes Thatcher/ Recognition of the Right Honourable The Baroness Thatcher

21 Nov 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM, Alun Cairns, Jonathan Morgan LLB MSc FRSA, Peter Rogers

1 Subscriber:
David Melding

*Deng mlynedd wedi iddi ymadael â'i swydd, mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod y cyfraniad enfawr a wnaeth y Wir Anrhydeddus Farwnes Thatcher wrth drawsffurfio ffyniant Cymru a'r Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog ac yn ei chydnabod yn un o Brif Weinidogion mwyaf yr 20fed ganrif.*

*Ten years after departing office, this Assembly acknowledges the massive contribution that the Right Honourable The Baroness Thatcher made in the positive transformation of the fortunes of Wales and of the United Kingdom during her period as Prime Minister and recognises her as one of the greatest Prime Ministers of the 20th Century.*

## Amendments

A01 23 Nov 2000 Raised by John Griffiths LLB

No Subscribers

*Dileu popeth a rhoi’r canlynol yn ei le:*

*"Ddeng mlynedd ar ôl iddi gael ei diswyddo’n ddiseremoni gan ei phlaid ei hun, mae’r Cynulliad hwn yn cydnabod y cyfraniad enfawr a wnaeth y Farwnes Thatcher i ddifrodi cymunedau ledled Cymru a’r Deyrnas Unedig yn ystod ei chyfnod fel Prif Weinidog, gan ddwysáu anghyfartaledd ac annhegwch yn enbyd; ac yn ei chydnabod fel un o Brif Weinidogion mwyaf trychinebus a chynhennus yr ugeinfed ganrif"*

*Delete all and replace with:*

*"Ten years after her unceremonious removal from office by her own party, this Assembly acknowledges the massive contribution that The Baroness Thatcher made to the decimation of communities across Wales and the United Kingdom during her period as Prime Minister, grossly exacerbating inequality and injustice, and recognises her as one of the most disastrous and divisive Prime Ministers of the twentieth century".*

## OPIN-2000-0095 Cydnabod yr hyn y mae John Charles wedi'i gyflawni/ Recognition of the achievements of John Charles

15 Nov 2000 Raised by Peter Black

6 Subscribers:
Gareth Jones
Gwenda Thomas
Richard Edwards
Cynog Dafis
Geraint Davies
Kirsty Williams

*Cred y Cynulliad Cenedlaethol y dylid cydnabod llwyddiannau'r cyn bêl-droediwr rhyngwladol o Gymru, John Charles, â'r anrhydedd priodol.*

*The National Assembly believes that the achievements of former Welsh International footballer John Charles should be recognised by an appropriate honour.*

## OPIN-2000-0094 Y Mudiad Heddwch yng Nghymru/The Peace

## Movement in Wales

14 Nov 2000 Raised by John Griffiths LLB, Christine Humphreys, Owen John Thomas MA

13 Subscribers:
Gareth Jones
Christine Chapman
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Cynog Dafis
Val Feld
Dafydd Wigley
Tom Middlehurst
Richard Edwards
Christine Gwyther
Helen Mary Jones
Ron Davies
Rosemary Butler
Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad pwysig y mudiad heddwch yng Nghymru at heddwch bydeang, gan gynnwys cyfraniad menywod Cymru yng Nghomin Greenham.*

*This Assembly recognises and values the important contribution of the peace movement in Wales to world peace, including that made by Welsh women at Greenham Common.*

## OPIN-2000-0093 Sgrinio Cyffredinol Clyw Plant Newydd-anedig/ Universal Neo-natal Hearing Screening

10 Nov 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Karen Sinclair, Kirsty Williams

19 Subscribers:
Owen John Thomas MA
Delyth Evans
Christine Chapman
Tom Middlehurst
Christine Gwyther
Ron Davies
Alison Halford
John Griffiths LLB
Alun Pugh
Val Feld

Richard Edwards
Gareth Jones
Gwenda Thomas
Cynog Dafis
Janet Ryder
Peter Black
Rhodri Glyn Thomas
Lorraine Barrett
Mick Bates

*Mae'r Cynulliad hwn yn annog y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, i sefydlu Grwp Tasg ar y cyd i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno'n fuan sgrinio cyffredinol clyw plant newydd-anedig yng Nghymru.*

*This Assembly urges the Health and Social Services Committee, together with the Education and Life-long Learning Committee, to set up a joint Task Group to explore the early introduction of universal neonatal hearing screening in Wales.*

## OPIN-2000-0091 Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru/ National Botanic Garden of Wales

08 Nov 2000 Raised by Christine Chapman

10 Subscribers:
Helen Mary Jones
Cynog Dafis
Owen John Thomas MA
Rhodri Glyn Thomas
Gwenda Thomas
Alison Halford
Richard Edwards
John Griffiths LLB
Nicholas Bourne LLB LLM
Kirsty Williams

*Mae’r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn llongyfarch y staff a phawb a fu’n gysylltiedig â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru sydd wedi gweld dros 184,000 o ymwelwyr yn ystod ei chwe mis cyntaf, gan lwyddo i ddenu mwy o ymwelwyr mewn chwe mis na’r nifer a ddisgwylid i ymweld yn ystod y flwyddyn gron, ac felly ei gwneud yn atyniad ymwelwyr bywiog gan hyrwyddo delwedd gadarnhaol Cymru.*

*This National Assembly congratulates the staff and all those involved with the National Botanic Garden of Wales which has seen over 184,000 visitors in its first six months of operation,*

*thereby surpassing its annual visitor estimate in only six months, and making it a vibrant tourist attraction and thereby furthering the positive image of Wales.*

## OPIN-2000-0087 Mesur Defnyddwyr newydd/ A new Consumer Bill

30 Oct 2000 Raised by Mick Bates, Ron Davies, Brian Hancock, David Melding

10 Subscribers:
Gareth Jones
Cynog Dafis
Peter Black
Val Feld
John Griffiths LLB
Janet Ryder
Rhodri Glyn Thomas
Karen Sinclair
Owen John Thomas MA
Kirsty Williams

*Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r alwad gan Gyngor Defnyddwyr Cymru, Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cymorth, a'r Sefydliad Safonau Masnach am gynnwys Mesur Defnyddwyr newydd yn Araith nesaf y Frenhines. Dylai Fesur o'r fath gynnwys mesurau i:*
*- ganiatáu i asiantaethau diogelu defnyddwyr lleol gamu i'r bwlch yn gyflym i atal masnachwyr twyllodrus*
*- diogelu defnyddwyr bregus a dibrofiad*
*- atal mantesio ar bobl sy'n gweithio gartref*
*- rhwystro arferion gormesol ac anheg gan gasglwyr dyledion*

*This Assembly supports the call by the Welsh Consumer Council, the National Association of Citizens' Advice Bureaux, and the Trading Standards Institute for a new Consumer Bill to be included in the next Queen's Speech. Such a Bill should include measures to:*
*- allow local consumer protection agencies to step in quickly to stop unscrupulous traders*
*- protect vulnerable and inexperienced consumers*
*- prevent the exploitation of home workers*
*- restrict oppressive and unfair practices by debt collectors*

## OPIN-2000-0081 Ysgol Plas Brondyffryn Canolfan Ragoriaeth/ Centre of Excellence

17 Oct 2000 Raised by Janet Ryder
6 Subscribers:
Dafydd Wigley
Ieuan Wyn Jones
Rhodri Glyn Thomas
Cynog Dafis
Peter Rogers
Gareth Jones

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod bod Ysgol Plas Brondyffryn yn darparu gofal preswyl ac addysg i blant ag Awtistiaeth. Er mai dim ond un cyngor sir sy'n rhoi cymorth i'r Ysgol y mae'n derbyn plant o ardal eang iawn. Mae gan y sefydliad y potensial i ddatblygu'n Ganolfan Ragoriaeth ar gyfer gofal a chymorth i blant a'u teuluoedd. Mae'r Cynulliad yn rhoi cefnogaeth lawn i ddatblygu Canolfan Ragoriaeth i ddarparu gofal, cymorth ac addysg i blant ag Awtistiaeth yn Ysgol Plas Brondyffryn.*

*This Assembly recognises that Ysgol Plas Brondyffryn provides residential care and education for children with Autism . While being supported by one county council it takes children from a very wide area. This establishment has the potential to become a Centre of Excellence for the care and support of these children and their families. The Assembly fully supports the development of a Centre of Excellence for the provision of care, support and education for children with Autism at Ysgol Plas Brondyffryn.*

## OPIN-2000-0076 Profion Llygaid am Ddim/Free Eye Tests

15 Sep 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, Kirsty Williams

7 Subscribers:
Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Janet Ryder
Dafydd Wigley
Ieuan Wyn Jones
Owen John Thomas MA
Cynog Dafis

*Mae'r Cynulliad hwn yn credu y byddai profion llygaid am ddim o fudd i bobl Cymru drwy gynorthwyo wrth atal afiechydon ar y llygaid, a chynorthwyo wrth drin pobl sy'n colli eu golwg.*

*Penderfynodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 16 Mawrth i ymestyn profion llygaid am ddim i leiafrifoedd ethnig, pobl sydd â nam ar eu clyw, pobl ag un llygad a'r rheini sydd mewn perygl o retinitis pigmentosa, oherwydd bod y grwpiau hyn mewn mwy o berygl o ddal afiechydon ar y llygaid. Ailddatganwyd hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd a*

*Gwasanaethau Cymdeithasol ar 7 Mehefin.*

*Mae’r Cynulliad hwn yn credu y dylai Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithredu penderfyniad y Pwyllgor.*

*This Assembly believes that free eye tests would benefit the people of Wales by aiding in the prevention of eye disease and the treatment of visual loss.*

*The Health and Social Services Committee of 16th March decided to extend free eye tests to ethnic minorities, hearing impaired people, uniocular people and those at risk from retinitis pigmentosa as these groups are at higher risk of eye disease. This decision was reaffirmed in the Health and Social Services Committee on 7th June.*

*The Assembly believes that the Assembly Secretary for Health and Social Services should implement this decision of the Committee.*

## OPIN-2000-0070 OPIN-2000-0070 Food for Thought

13 Jul 2000 Raised by Janice Gregory, Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, David Melding, Jenny Randerson

5 Subscribers:
Brian Hancock
Rhodri Glyn Thomas
Karen Sinclair
Janet Ryder
Kirsty Williams

*Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn croesawu’r ffaith bod Cymdeithas Alzheimer wedi cyhoeddi’r adroddiad : ‘Food for Thought’ sy’n crynhoi pryderon bron 4000 o ofalwyr pobl sy’n dioddef gan ddementia, a phryderon gweithwyr proffesiynol mewn perthynas â bwyd a bwyta. Mae’n galw ar yr awdurdodau statudol yng Nghymru i edrych ar y sefyllfa yn eu hardaloedd hwy a gweithredu’r argymhellion sydd yn yr adroddiad, gan gynnwys darparu:*
*• Cymorth a chyngor ar fwyd a bwyta ar gyfer pobl sy’n dioddef gan ddementia ac ar gyfer gofalwyr sy’n byw gartref;*
*• Bwyd o ansawdd da, a dewis o fwyd mewn cartrefi gofal ac ysbytai;*
*• Hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal proffesiynol ar sut y gall dementia effeithio ar fwyta.*

*The National Assembly for Wales welcomes the publication by the Alzheimer's Society of the report 'Food for Thought' summarising the concerns of almost 4000 carers of people with dementia and professionals in relation to food and eating. It calls on statutory authorities in Wales to examine the position in their areas and to implement the recommendations contained in the report, including providing:*
*- Help and advice on food and eating for people with dementia and carers living at home;*

*- Good quality food and choice of food in care homes and hospitals;*
*- Training for care professionals on how dementia can effect eating.*

## OPIN-2000-0063 Ymgyrch yn erbyn Argae llisu/ Campaign against the llisu Dam

15 Jun 2000 Raised by Cynog Dafis, Ron Davies, Glyn Davies, Michael German OBE

25 Subscribers:
Geraint Davies
Tom Middlehurst
Christine Gwyther
Alison Halford
Dafydd Wigley
Delyth Evans
John Griffiths LLB
Karen Sinclair
Ieuan Wyn Jones
Jocelyn Davies
Christine Humphreys
Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Gareth Jones
Elin Jones
Kirsty Williams
Richard Edwards
Jenny Randerson
Nicholas Bourne LLB LLM
Ann Jones
Janet Ryder
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
William Graham JP
Mick Bates
Owen John Thomas MA

*Yng ngoleuni ei ymrwymiad i egwyddorion sylfaenol amddiffyn hawliau dynol, arddel amrywiaeth ddiwyllianol a gwarchod yr amgylchfyd, y mae'r Cynulliad Cenedlaethol hwn yn mynegi ei wrthwynebiad i godi Argae llisu yn rhanbarth Gwrdaidd Twrci, ac yn galw ar Lywodraeth Prydain i wrthod hybu'r cynllun adeiladu.*

*In light of its commitment to the fundamental principles of defending human rights, of recognising cultural diversity and of protecting the environment, this National Assembly declares its opposition to the building of the llisu Dam in the Kurdish region of Turkey, and calls*

*upon the UK Government to refuse to support the construction project.*

## OPIN-2000-0055 Y perygl posibl o niwed i glustiau plant oherwydd Hedfan Isel Milwrol / The potential risk of ear damage to children from Military Low Altitude Flying

19 May 2000 Raised by Kirsty Williams

17 Subscribers:
Brian Hancock
Dafydd Wigley
John Griffiths LLB
Jocelyn Davies
Janet Ryder
Phil Williams
Rhodri Glyn Thomas
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Elin Jones
Mick Bates
Cynog Dafis
Christine Humphreys
Val Feld
Gareth Jones
Nicholas Bourne LLB LLM
Owen John Thomas MA
Michael German OBE

*Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ofyn i'r CMO ystyried cyhoeddi datganiad i rybuddio rhieni sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ynghylch y posibilrwydd y gall awyrennau milwrol sy'n hedfan o dan 300m achosi niwed parhaol i glust fewnol eu plant. Mae'r Cynulliad yn nodi y gwaharddwyd Hedfan Isel Milwrol o dan 300m yn yr Almaen ym 1990, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Harmut Ising "Effeithiau swn hedfan isel milwrol ar glyw".*

*The National Assembly should ask the CMO to consider publishing a statement, warning parents in rural areas of Wales of the potential risk of permanent inner ear damage that Military Low Altitude Flying under 300m may have on children.*

*The National Assembly notes the report entitled "Auditory effects of military low-altitude flight noise" by Harmut Ising, led to Military Low Altitude Flying under 300m being banned in Germany in 1990.*